Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Hannah Blythyn AC
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Jane Hutt AC
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

24 Chwefror 2020

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 21 Ionawr, yn amgáu copi o adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2020-21.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad. Mae'r papur sydd ynghlwm yn nodi ein hymateb i wyth argymhelliad yr adroddiad.

Yn gywir,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Jamess@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.Cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.Cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Jane Hutt AC
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip



Hannah Blythyn AC
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

SETLIAD LLYWODRAETH LEOL

CYLLID CYFALAF

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i'r cyhoedd am y cymorth sydd ar gael i wneud gwelliannau i'w cartref mewn perthynas â lleihau ôl troed carbon eu cartref

Ymateb: Derbyn

Mae Cynllun Nyth sy'n rhan o Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor am effeithlonrwydd ynni yn y cartref i bobl o ran gwella effeithlonrwydd thermal ac ynni eu cartrefi. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor i gefnogi ein hymdrechion i leihau costau ynni domestig fel rhan o'n camau gweithredu i leihau tlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon o gartrefi yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynllun drafft newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, a fydd yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu cefnogi pobl i ddod allan o dlodi tanwydd ac wynebu'r argyfwng newid hinsawdd yn y blynyddoedd sydd i ddod.

PWYSAU'R GWEITHLU

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad inni yn hydref 2020 ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thâl, telerau ac amodau a statws y rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol y tu allan i'r GIG.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â thâl, telerau ac amodau a statws y rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol yn yr hydref.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried beth yw'r ffordd orau i gryfhau ei hagwedd tuag at dâl ac amodau yn y sector cyhoeddus. Y nod yw bod yn fwy cydlynol a chyson o ran y strategaeth a'r polisi tâl, yn unol â'n nodau strategol ehangach. I gefnogi hyn, rydym wrthi'n ymgynghori ar set o egwyddorion a ddatblygwyd gennym i fod yn sail i ddull newydd o ymdrin â chyflogau yn y sector cyhoeddus, heb amharu ar y trefniadau cydfargeinio presennol rhwng cyflogwyr ac undebau llafur.

DEDDFWRIAETH

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, wrth baratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig, bod gwersi a ddysgwyd drwy waith craffu a gweithredu deddfwriaeth flaenorol yn cael eu hystyried.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen asesu'r costau a'r buddion yn drwyadl er mwyn sicrhau gwaith craffu ariannol effeithiol ar Fil. Mae eglurder o ran costau yn bwysig i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid darparu, a dyma pam yr ydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau mai'r bobl a fydd yn cael eu heffeithio gan ein penderfyniadau sy'n eu llywio.

Mae'r canllawiau Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Llawlyfr Deddfwriaeth wedi'u hadolygu ddwywaith yn ystod tymor presennol y Cynulliad i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod proses graffu a datblygu'r ddeddfwriaeth flaenorol. Mae cynnwys dull mwy diffiniedig, fesul cam ar gyfer datblygu'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn y canllawiau (un rhan o hyn yw cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft fel rhan o'r ymarfer ymgynghori) yn adlewyrchu ein cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae fersiwn ddiweddaraf y Llawlyfr Deddfwriaeth (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019) hefyd yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn dilyn ymchwiliad 2017 (ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol a ddaw gyda'r ddeddfwriaeth).

Yn ogystal â diweddaru'r canllawiau ffurfiol, mae nifer o ddulliau eraill ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer un darn o ddeddfwriaeth ar draws y sefydliad, a hynny yn brydlon. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Traws Gyfarwyddiaeth ar Ddeddfwriaeth a'r hyfforddiant a'r cymorth a roddir gan economegwyr Llywodraeth Cymru i dimau polisi.

TAI AC ADFYWIO

DIGARTREFEDD

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu dyraniad y cyllid i'r Grant Cymorth Tai a'r llinell gyllideb ar gyfer atal digartrefedd yng nghyllideb 2020-21 i sicrhau y gellir cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru bod digartrefedd yn rhywbeth prin a byr, nad yw'n cael ei ailadrodd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yn dilyn toriadau olynol i'n cyllideb, rydym wedi diogelu ein cyllidebau cymorth sy'n gysylltiedig â thai cyn belled ag y bo modd yn erbyn effeithiau gwaethaf y cyni.

Rydym yn ymwybodol o alwadau gan y sector am fwy o gyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd. Rydym yn gwbl gefnogol o'r angen i sicrhau bod gwasanaethau sy'n atal pobl rhag colli eu tai a'u galluogi i ffynnu yn eu cartrefi yn cael digon o arian. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi nodi os oes cyllid ychwanegol ar gael i Lywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf yn dilyn cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth, ei bod yn gobeithio gallu nodi'r blaenoriaethau hyn yn y drafodaeth ar y Gyllideb derfynol. Bydd ein gwaith i fynd i'r afael â digartrefedd ac atal digartrefedd o bob math yn ystyriaeth bwysig yn y cyd-destun hwnnw.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ymrwymiad cadarn, os oes gan y Cynllun Gweithredu ar Ddigartrefedd gamau gweithredu y mae angen cyllid ychwanegol arnynt, bod y cyllid hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw gwaith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd wedi'i gwblhau eto, ac felly nid yw'n bosibl gwneud ymrwymiadau cyllid nad ydynt yn fesuradwy. Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i'n helpu i gyflawni'r nod o roi terfyn ar ddigartrefedd, ac rydym wedi ymrwymo'n llawn i wneud hyn. Bydd adroddiadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn hysbysu ein cynllun gweithredu cyntaf o dan ein Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a byddwn yn ystyried yn ofalus pa adnoddau sydd eu hangen i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn llawn.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canlyniadau gwariant sy'n ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu'n effeithiol, ac yn arbennig y gwasanaethau hynny sy'n cefnogi pobl ifanc wrth iddynt symud i wasanaethau cymorth i oedolion.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal pob math o ddigartrefedd, gan gynnwys digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Fel y nodwyd yn y Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, mae ymyrryd yn gynnar ac atal yn hanfodol i gyflawni'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd a digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae gan y gwasanaethau addysg, ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol rôl yn hynny o beth hefyd. Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £10m ychwanegol mewn atal digartrefedd ymhlith ieuenctid yn 2019-20. Mae hyn wedi galluogi datblygu prosiectau newydd, yn ogystal â gwella gweithgareddau a gwasanaethau presennol. Fel rhan o'n harian grant, mae angen i'r holl brosiectau ddarparu data canlyniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn effeithiol.

Yn 2019-20 gwnaethom sefydlu cronfa arloesi gwerth £4.8m, sy'n cefnogi 26 o brosiectau i ddarparu tai newydd ac arloesol a dulliau cymorth i bobl ifanc agored i niwed rhwng 16 a 25 oed, sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Oherwydd bod y rhain yn brosiectau newydd, rydym yn cydnabod bod angen gwerthuso eu heffaith a sicrhau eu bod yn effeithiol o ran cefnogi pobl ifanc i osgoi a dianc oddi wrth ddigartrefedd. Bydd gwerthusiad annibynnol o'r prosiectau hyn yn dechrau ym mis Mawrth 2020.

I gydnabod pwysigrwydd adnabod problemau yn gynnar a rhoi cymorth, mewn cynllun ar y cyd rhwng Tai ac Addysg, gwnaethom fuddsoddi £3.7m ychwanegol yn y Grant Cymorth i Ieuenctid. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gryfhau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a ddefnyddir ar hyn o bryd i adnabod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), i adnabod y rhai hynny sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref hefyd a sefydlu'r cymorth angenrheidiol. Bydd gwerthusiad annibynnol o'r gwaith hwn yn dechrau yn 2020-21 i gefnogi datblygu a gwella'r fframwaith ymhellach.

Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch gyfathrebu ar y cyd gyda Shelter Cymru i godi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd cudd a'r cymorth sydd ar gael - i bobl ifanc ac i weithwyr proffesiynol. Bydd yr ymgyrch yn cael ei gwerthuso yn unol â Fframwaith Gwerthuso Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth. Bydd sawl mesur yn cael eu defnyddio i asesu'r ymateb i'r ymgyrch gan gynnwys ymweliadau â gwefan Shelter Cymru; ymholiadau i wasanaethau cynghori Shelter Cymru; ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ymgyrch a'u dealltwriaeth o ddigartrefedd cudd.

LLEIHAU COSTAU

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad inni o nifer y ceisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol a ddaeth i law; a gafodd eu derbyn, ac a gafodd eu gwrthod yn 2019-20, gan gynnwys y rhesymau y gwrthodwyd ceisiadau.

Ymateb: Derbyn

O fis Ebrill 2019 i fis Rhagfyr 2019, mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi rhoi £9.04m mewn cymorth grantiau a daeth 119,188 o geisiadau i law yn ystod y cyfnod hwn. Gellir dadansoddi'r rhain fel a ganlyn:

- gwnaethpwyd 53,268 o ddyfarniadau
- gwrthodwyd 61,136 o geisiadau
- 4,784 o geisiadau wedi'u tynnu yn ôl, yn yr arfaeth (angen rhagor o wybodaeth), neu'n cael eu prosesu ar ddiwedd y mis

Mae'n rhaid i bob cais gyrraedd meini prawf cymhwysedd y Gronfa Cymorth Dewisol cyn y gellir dyfarnu. Y prif resymau dros wrthod ceisiadau yw:

Rheswm dros wrthod y cais	Cyfanswm

	(Ebrill i Rhagfyr)
Ddim yn bodloni amod cymwys IAP	8,926
Cais anghyflawn	17,849
Wedi cyrraedd yr uchafswm dyfarniadau	8,242
Wedi methu'r gwiriadau	6,597
Arall *	19,522
Cyfanswm	**61,136**

* Bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod am amryw o resymau, gan gynnwys ceisiadau ailadroddus o fewn 28 diwrnod, gwneud cais am eitemau/rhesymau annilys a gwneud cais am gymorth gyda chostau parhaus sydd y tu hwnt i feini prawf y Gronfa Cymorth Dewisol.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am yr holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf sy'n derbyn cyllid etifeddiaeth a pha waith sy'n cael ei wneud i'w cefnogi i ddod yn hunangynhaliol.

Ymateb: Gwrthod

Daeth y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben ym mis Mawrth 2018. Crëwyd Cronfa Waddol, a ddyfarnwyd i'r 19 o awdurdodau lleol a oedd yn gymwys am gyllid Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y Gronfa Waddol yn gallu cael ei defnyddio i gefnogi unrhyw brosiectau yr oedd yr Awdurdodau Lleol yn dymuno iddynt barhau. O fis Ebrill 2019, daeth y Gronfa Waddol yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau, sy'n rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran sut y maent yn gwario arian yn y 7 rhaglen sy'n rhan o'r grant. Nid oes rhaid iddynt wario'r arian hwn yn benodol ar brosiectau gwaddol, ac nid oes rhaid iddynt roi gwybod a oedd prosiect yn brosiect Cymunedau yn Gyntaf yn flaenorol.

Ers cyflwyno'r Grant Plant a Chymunedau ym mhob awdurdod lleol y llynedd, gall rhai prosiectau a ariennir gan y Gronfa Waddol fod yn barhad o brosiectau a oedd yn bodoli o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ond mae nifer ohonynt yn newydd neu wedi'u hailstrwythuro i barhau i ymateb i anghenion newidiol – yn unol â phenderfyniad pob awdurdod lleol.